

Adrodd i'r	Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Dyddiad y cyfarfod	7 Tachwedd 2024
Aelod/Swyddog Arweiniol Y Cyngorydd Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd / Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi	
Awdur yr adroddiad	Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol Yr Amgylchedd a'r Economi
Teitl	Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru 2023/24

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn sôn am waith Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru (y Bwrdd) yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. I ystyried Adroddiad Chwarter 4 (Ch4) ar gyfer 2023/24 (Atodiad 1) ac Adroddiad Blynyddol y Bwrdd ar ei waith a chynnydd yn ystod 2023/24 (Atodiad 2).

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod Aelodau yn ystyried cynnwys Adroddiad Chwarter 4 2023/24 a'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/24 a darparu sylwadau ac adborth, fel bo angen.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Ar 8 Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y Cyngor y Fargen Dwf Derfynol gyda Llywodraethau'r DU a Chymru a chytunwyd ar gytundeb llywodraethu (GA2) fel sail i lywodraethu gwaith y Bwrdd i ddarparu'r Weledigaeth Dwf a'r Fargen Dwf. Fel rhan o

GA2, cytunwyd y byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn paratoi adroddiad chwarterol ar waith y Bwrdd a'i rannu gyda phob sefydliad partner er mwyn ei gyflwyno i Craffu.

4.2. Cytunwyd hefyd y byddai swyddog o'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gallu mynd i gyfarfod craffu perthnasol unwaith y flwyddyn i ateb cwestiynau. Cytunodd y Pwyllgor Craffu y byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod Craffu pan ystyrir yr adroddiadau Chwarter 4/Blynyddol, a bod yr adroddiadau mewn perthynas â Chwarter 1, Chwarter 2 a Chwarter 3 yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth yn unig.

4.3. Mae'r Adroddiad Chwarter 4 2023/24 (Atodiad 1) a'r Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Atodiad 2) y Bwrdd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Bydd swyddogion y Swyddfa Rheoli Portffolio, ynghyd â swyddogion perthnasol y Cyngor, yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau'r aelodau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r Fargen Dwf, a gwaith Uchelgais Gogledd Cymru, yn cefnogi nifer o themâu Cynllun Corfforaethol y Cyngor, ond yn enwedig themâu: Sir Ddinbych Ffyniannus; a Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau'n codi'n uniongyrchol o graffu ar yr adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi'u cynnal gydag eraill cyn y cyfarfod hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodwyd ar flaen yr adroddiad hwn, dyma adroddiad diweddar, er gwybodaeth i'r aelodau, ac nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol. Mae adrodd

rheolaidd ar gynnydd Bargen Dwf Gogledd Cymru yn hanfodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda dyfarniad gofynion llythyr ariannu a GA2.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn uniongyrchol gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. A21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor